Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MON**
**ISLE OF ANGLESEY CHARITABLE TRUST**

| RHYBUDD 0 GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR BUDDSODDI A CHONTRACTAU** | **INVESTMENTS AND CONTRACTS COMMITTEE** |
| **DYDD MAWRTH, 20 MAI 2014 at 10.30 o'r gloch** | **TUESDAY, 20 MAY, 2014 at 10.30 a.m.** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI** | **COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI** |

| Swyddog Pwyllgor | Mrs. Mairwen Hughes (01248) 752516 | Committee Officer |
|---|---|---|

**AELODAU / MEMBERS:**

**Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth/Chairman of the Trust – T.V. Hughes**
**Is-Gadeirydd yr Ymddiriedolaeth/Vice-Chairman of the Trust – A.M. Jones**

**Ann Griffith**
**T Ll Hughes**
**K P Hughes**
**H E Jones**
**R Ll Jones**
**A M Jones**
**G O Jones**
**Alun W Mummery**
**Nicola Roberts**
**Dafydd Rhys Thomas**

**R H A G L E N**

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 2)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 5 Tachwedd, 2013.

3 **RHEOLI BUDDSODDI**

Cyflwyno, adroddiadau gan HSBC Global Asset Management (UK) Limited ar gyfer y chwarter a ddaeth i ben ar 31 Mawrth, 2014.
(BYDD Y DDOGFEN AR WAHAN)

# Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Tachwedd 2013

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Mri. K.P. Hughes, T.Ll. Hughes, Aled M. Jones, G.O. Jones, H. Eifion Jones, R.Ll. Jones, Alun W. Mummery.<br><br>**HSBC Global Asset Management (UK) Limited**<br><br>Mr. Gareth Watts – Cyfarwyddwr, Institutional Client Management |
| **WRTH LAW:** | Ysgrifennydd,<br>Trysorydd,<br>Cyfrifydd Cyfalaf/Trysorlys (BD),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Mrs. Nicola Roberts, Mr. Dafydd Rhys Thomas. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Mr. T. Victor Hughes – Cadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn |

---

### 1 ETHOL CADEIRYDD

Etholwyd Mr. H. Eifion Jones yn Gadeirydd.

Diolchodd Mr. Jones i'r Pwyllgor am eu hyder ynddo.

Roedd y Cadeirydd yn dymuno cofnodi ei werthfawrogiad i gyn-Gadeirydd y Pwyllgor hwn, Mr. Gareth W. Roberts OBE am ei waith dros y blynyddoedd.

### 2 ETHOL IS-GADEIRYDD

Etholwyd Mr. Gwilym O. Jones yn Is-gadeirydd.

### 3 RHEOLI BUDDSODDIAD

Cyflwynwyd – Adroddiad Chwarterol gan HSBC Global Asset Management (UK) am y cyfnod hyd at ddiwedd mis Medi 2013.

Cyflwynodd y Rheolwyr Buddsoddi adroddiad yn dweud bod y portffolio wedi dangos dychweliad o +17.8%, yn erbyn y meincnod o +14.6%. Gwerth y gronfa ar 1 Tachwedd, 2013 oedd £17,148,225. Eglurodd Mr. Gareth Watts berfformiad y portffolio i'r Pwyllgor a chyfeiriodd at Farchnad Ecwiti'r DU a'r Bondiau Corfforaethol.

Rhoes adroddiad cefndir ar yr economi ac eglurodd y gwelliant graddol yn y gwledydd hynny lle mae'r Farchnad yn Esblygu. Nododd fod y cyfraddau llog isel yn debygol o barhau am y dyfodol rhagweladwy. Cyfeiriodd at gau i lawr y Llywodraeth yn yr UD a'r ansefydlogrwydd y gallai hynny ei achosi i farchnadoedd eraill. Roedd y methiant i gytuno ar gyllideb am gyfnod dros dro yn yr UD wedi cau i lawr rannau o'r Llywodraeth Ffederal.

Roedd yr incwm difidend yn dangos bod y portffolio wedi cyrraedd dros £500k yn chwarter 3 ac roedd yr Aelodau'n croesawu hynny.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**MR. H. EIFION JONES**
**Cadeirydd**

This page is intentionally left blank